

Cofnodion



Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Medi 2018

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Cleverly, P Cockeram, M Cornelious, K Critchley, D Davies, C Evans, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, D Harvey, I Hayat, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, M Rahman, J Richards, M Spencer, T Suller, H Thomas, K Thomas, C Townsend, Councillor R Truman, T Watkins, M Whitcutt, R White, D Wilcox, J Clarke, Y Forsey, R Hayat, T Holyoake, P Hourahine, J Hughes, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend, J Watkins and V Dudley

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr M Al-Nuaimi, J Guy, C Jenkins, J Mudd, K Whitehead, D Williams, G Berry and J Jordan

1. Materion Rhagarweiniol

i) Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Swyddog Monitro am absenoldeb.

ii) Derbyn datganiadau o ddiddordeb

Datganodd y Cynghorydd Rahman fuddiant nad yw'n rhagfarnus yn eitem 5: Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel yr enwebai arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor.

iii) Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Maer

Gwobr RSPCA

Arweiniodd y Maer y cyngor wrth longyfarch cydweithwyr a enillodd wobr yn y Gwobrau Ôl-troed Lles Anifeiliaid Cymunedol ar gyfer 2018, gan ennill y wobr aur yn y Categori Cŵn Strae. Cynhelir y cynllun gwobrwyo hwn gan RSPCA Cymru a chynghorau cydnabyddedig, cymdeithasau tai a sefydliadau sector cyhoeddus eraill sy'n mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol i sicrhau safonau lles uwch i anifeiliaid yn y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

2. Cofnodion

Tynnwyd sylw at y cywiriad canlynol:

- O dan eitem 12: Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor Darpariaeth y Brifysgol: "gyda chyfran fach o 20,000 o fyfyrwyr PDC bellach yn dod i Gasnewydd".

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf fel cofnod cywir yn amodol ar y cywiriad uchod.

3. Ffilm "Anti Social Bob"

Gwylodd y cyngor y ffilm "Anti Social Bob" a gynhyrchwyd gan ein Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r swyddogion am fod yn bresennol a dangos y ffilm, ac am eu gwaith caled parhaus yn y maes pwysig hwn.

4. Materion yr Heddlu

Rhoddodd y Prif Arolygydd Richard Blakemore ddiweddariad ar flaenoriaethau plismona lleol cyfredol cyn gwahodd cwestiynau gan yr Aelodau.

- Wrth ymateb i ymholiadau am barcio, cadarnhaodd y Prif Arolygydd y byddai cydweithwyr yn ymateb i adroddiadau o barcio peryglus, ac y byddent yn cysylltu â thimau cymdogaeth i archwilio mannau a adroddwyd lle mae'r broblem ar ei gwaethaf.
- Cytunodd y Prif Arolygydd i ddarparu rhagor o wybodaeth am orfodi'r GDMC yng nghanol y ddinas.
- Nodwyd diolch am y camau a gymerwyd yn ddiweddar yn y wardiau, gan gynnwys ym Mharc Black Ash.
- Cytunodd y Prif Arolygydd i ddarparu rhagor o wybodaeth am achosion y ddamwain traffig ar y ffordd ddiweddar yng Nghaerllion.
- Cytunodd y Prif Arolygydd i drosglwyddo manylion y lladrata beddi a adroddwyd ym Mynwent Basaleg.
- Wrth ymateb i gwestiwn am fesurau cyni, adroddodd y Prif Arolygydd ar ymagwedd Heddlu Gwent ar amddiffyn model plismona'r gymdogaeth.
- Cytunodd y Prif Arolygydd i fynd ar drywydd pryderon a godwyd ynghylch
 - o Cyfarfodydd munud olaf wedi'u canslo
 - o Lefelau traffig yn Nhŷ-du
 - o Costau galwadau 101
 - o Dyraniadau swyddogion mewn wardiau penodol

5. Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad yn gofyn i'r cyngor gymeradwyo'n ffurfiol sefydlu'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (CTCh) ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (BDdPRC).

Mae Cytundeb Gweithio ar y Cyd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn nodi y bydd cynghorau'n cydweithio, yn unol â'r gyfraith, i greu cylch gorchwyl a chytuno arno ar gyfer Cydbwyllgor Archwilio a Chydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, a sut y bydd yn cael ei adnoddau a'i ariannu.

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i bob un o'r 10 cyngor partner yn y fargen ddinesig, gan fanylu ar gylch gorchwyl drafft y CTCh, a gofyn i bob cyngor gymeradwyo sefydlu'r pwyllgor hwn yn ffurfiol ac enwebu ei gynrychiolydd.

Wrth drafod yr adroddiad, holodd yr Aelodau am y broses enwebu ar gyfer y corff hwn ac a oedd gan yr enwebai y sgiliau priodol i gyflawni'r rôl hon. Cadarnhawyd bod hyn wedi cael ei drafod yn flaenorol yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Partneriaethau, ac ystyriwyd bod gan yr enwebai y sgiliau priodol i gyflawni'r rôl.

yn unfrydol

1. Cymeradwyo sefydlu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CTCh BDdPRC) yn ffurfiol;
2. Cytuno bod yr ychwanegiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i gyfansoddiad y cyngor i ymgorffori CTCh BDdPRC a
3. I argymhell bod Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Partneriaethau'n cael ei enwebu fel cynrychiolydd anweithredol y cyngor hwn ar CTCh BDdPRC.

6. Penodiadau

Cymeradwyo'r penodiadau canlynol:

Penodiadau Mewnol

Pwyllgor	Nifer o Swyddi Gwag / Olynyddion	Enwebiadau a gafwyd
Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl	1 newid	Y Cynghorydd Ken Critchley i gymryd lle'r Cynghorydd Tracey Holyoake
Pwyllgor Cynllunio	1 newid	Y Cynghorydd David Fouweather i gymryd lle'r Cynghorydd Ray Mogford

Penodiadau i Sefydliadau Allanol

Sefydliad	Nifer o Swyddi Gwag / Olynyddion	Enwebiadau a gafwyd
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu	1 swydd wag	Y Cynghorydd Majid Rahman fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad - Partneriaethau

Penodiadau Cyrff Llywodraethu

Corff Llywodraethu	Nifer o Swyddi Gwag / Ailbenodiadau	Enwebiadau a gafwyd
Ysgol Uwchradd Llan-wern	1 ailbenodiad	Y Cynghorydd Mark Spencer

Ysgol Sain Silian	2 ailbenodiad	Y Cyngorydd Deb Davies a'r Cyngorydd Phil Hourahine
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	1 apwyntiad	Nicholas Clark
Ysgol Bryn Derw	1 apwyntiad	Nathan Kethro

Hefyd i nodi'r llywodraethwyr ychwanegol canlynol a benodwyd gan y Prif Swyddog Addysg:

- Penodwyd Angela Lloyd i Ysgol Uwchradd Llanwern
- Penodwyd Anne Drewett ac Emma Johnson i Ysgol Gynradd Maesglas

7. Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad rheoli'r trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

Yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys y cytunwyd arni, parhaodd y cyngor i fod yn fuddsoddwr arian parod byrdymor ac yn fenthyciwr i reoli llif arian parod o ddydd i ddydd. Dangosodd rhagolygon cyfredol y byddai benthycia dros dro yn parhau i fod yn ofynnol ar gyfer ariannu gweithgareddau llif arian parod arferol o ddydd i ddydd yn y dyfodol.

Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn gwerthwyd datblygiad Friars Walk yn llwyddiannus a oedd yn caniatáu benthycia, a wnaed mewn perthynas â'r benthyciad a ddarparwyd i Queensberry Newport Ltd i gael ei ad-dalu. Roedd yr holl fenthycia mewn perthynas â'r datblygiad hwn bellach wedi'i ad-dalu'n llawn, ac roedd hyn wedi golygu bod benthycia benthyciadau am y flwyddyn wedi gostwng o £209.2m i £147.5m yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr holl fenthyciadau a buddsoddiadau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn rhai disgwylidig ac o fewn terfynau cytunedig y cyngor ar gyfer 2017/18.

Roedd yr adroddiad wedi mynd gerbron y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet i'w nodi ac i roi sylwadau i'r cyngor. Roedd cofnodion o'r ddau gyfarfod ar gael a chymeradwywyd yr adroddiad yn y ddau gyfarfod i fynd gerbron y cyngor i'w gymeradwyo.

Penderfynwyd

yn unfrydol

1. Nodi'r Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2017/18.
2. Nodi a chymeradwyo bod Dangosyddion Darbodus 2017/18 ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn unol â'r rheini a osodwyd gan y cyngor ym mis Mawrth 2018.

8. Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad yn gofyn i'r cyngor gymeradwyo adroddiad monitro blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2017/18.

Roedd yn ofynnol i'r cyngor adrodd yn flynyddol ar ei gynnydd o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Roedd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r ail flwyddyn o weithredu, yn dilyn gosod y rhan fwyaf o Safonau'r Gymraeg ym mis Mawrth 2016. Mae'r adroddiad a dderbyniwyd yn flaenorol gan y Cabinet yn rhoi trosolwg o gynnydd y cyngor o ran bodloni Safonau'r Gymraeg.

Codwyd y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r adroddiad hwn:

- Pryderon am wariant ar Safonau'r Gymraeg yn sgîl pwysau cyllidebol eraill.
- Ymholiadau ynghylch cyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.
- Pryderon y gallai cyfathrebu dwyieithog fod yn ddryslyd.
- Cadarnhad bod Safonau'r Gymraeg yn ofynion cyfreithiol y bu'n rhaid i'r cyngor gydymffurfio â hwy.

yn unfrydol

Cymeradwyo'r adroddiad monitro terfynol atodedig a'i gyhoeddi ar wefan y cyngor, yn unol â therfynau amser statudol.

9. **Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Cyflwynodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-18 ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), roedd yn ofynnol i'r cyngor adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaeth yn erbyn y naw Amcan Cydraddoldeb Strategol a gynhwysir yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol i gyhoeddi data cydraddoldeb staff, sydd yn yr adroddiad hwn hefyd.

Penderfynwyd

yn unfrydol

Cymeradwyo'r adroddiad blynyddol atodedig a'i gyhoeddi ar wefan y cyngor, yn unol â therfynau amser statudol.

10. **Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Partneriaethau Adroddiad Blynyddol y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r cyngor, fel sy'n ofynnol gan gyfansoddiad y cyngor. Yn ogystal â darparu sylwebaeth ar weithgarwch craffu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, strwythurwyd yr adroddiad i adolygu perfformiad ar y targedau a osodwyd fis Medi diwethaf, a chytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf a fyddai'n cael eu defnyddio fel sail ar gyfer yr adolygiad perfformiad y flwyddyn nesaf.

Wrth drafod yr adroddiad, dywedwyd bod craffu wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Penderfynwyd

yn unfrydol

Cytuno ar gynnwys yr adroddiad blynyddol fel sail i waith y Pwyllgorau Craffu yn y flwyddyn i ddod.

11. **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i'r cyngor. Roedd hyn yn ofyniad gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Roedd yr adroddiad yn cynnwys adroddiad blynyddol y Pwyllgor, yn ogystal ag adroddiad blynyddol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar ddigonolrwydd staff i gefnogi Aelodau. Ystyriwyd y ddau adroddiad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ac fe'u cymeradwywyd yn ei gyfarfod ar 24 Mai 2018.

Penderfynwyd

yn unfrydol

Derbyn adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r cyngor er mwyn bodloni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol.

Nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, fel tystiolaeth ategol fod y Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldeb i adolygu digonolrwydd staff i gefnogi Aelodau.

12. **Protocol y Faeryddiaeth**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gynigion i ddiwygio'r protocol ar gyfer gohirio enwebiadau i'r faeryddiaeth, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Ym mis Chwefror 2017, adolygodd ac argymhellodd y Pwyllgor brotocol newydd i reoli gohirio enwebiadau ar gyfer swyddfa'r Maer. Cafodd y protocol hwn ei roi ar waith gyntaf yng nghyfarfod y cyngor ym mis Ionawr 2018, pan ofynnwyd i'r protocol gael ei gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor i'w ystyried ymhellach. Cynhaliwyd yr adolygiad pellach hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2018 pan gytunwyd i argymhell protocol diwygiedig i'r cyngor.

Penderfynwyd

yn unfrydol

Cytuno ar y protocol diwygiedig ar gyfer gohirio enwebiadau maerol.

13. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyhoeddiadau'r Arweinydd

Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf gan y Maer, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol:

- Llwyddiant y llwyfan Taith Prydain diweddar a ymwelodd â'r ddinas, a dadorchuddio Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas a ailenwyd yn ddiweddar.

- Presenoldeb y Maer yn seremoni gloi Gemau Trawsblannu Prydain yn Birmingham, cyn i Gasnewydd gynnal y digwyddiad y flwyddyn nesaf.
- Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion am ganlyniadau arholiadau a chofnodion presenoldeb ysgol rhagorol.
- Penodi Cadeirydd newydd Comisiwn Tegwch Casnewydd, Dr Gideon Calder.

Ffioedd Parcio ym Mharc Belle Vue

Cododd y Cynghorydd Matthew Evans bryderon am effaith cyflwyno ffioedd parcio ym Mharc Belle Vue, gan ofyn sut roedd hyn yn gysylltiedig ag amcanion lles y cyngor.

Ymatebodd yr Arweinydd drwy amlinellu'r sefyllfa ariannol anodd sy'n wynebu'r cyngor, lle bu'n rhaid edrych ar bob agwedd ar wariant i fodloni'r diffyg cyllid, a bu'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd i gydbwysu'r llyfrau.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Evans am gysylltiadau â'r amcanion lles, cadarnhaodd yr Arweinydd fod yr amcanion lles wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ond ailadroddodd yr her a wynebwyd wrth bennu cyllideb gytbwys, ac na wnaed y penderfyniadau hyn yn ysgafn.

Morglawdd Brynbuga

Mewn ymateb i gais y Cynghorydd Evans i adfywio cynigion Morglawdd Brynbuga, cytunodd yr Arweinydd i fynd ar drywydd yr awgrym i ystyried y syniad hwn ymhellach yng ngoleuni'r technolegau newydd sydd ar gael.

Glanhau'n Drylwyr:

Canmolodd y Cynghorydd Townsend effaith gadarnhaol y glanhau trylwyr a wnaed wrth baratoi ar gyfer Taith Prydain a Marathon Casnewydd. Cytunodd yr Arweinydd i ystyried yr awgrym i ymestyn hyn i ardaloedd siopa ardal, gan nodi'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael hefyd.

Cynnydd Gorfodi Parcio Sifil

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Hughes am gynnydd gorfodi parcio sifil, cadarnhaodd yr Arweinydd fod y cais drafft wedi'i gymeradwyo, ac roedd Gwasanaethau Dinas yn barod i gyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd y byddai cefnogaeth y swyddfa gefn yn cael ei ddarparu ar ôl troed rhanbarthol a bod y trefniadau hynny'n mynd rhagddynt yn dda. Cynlluniwyd i'r gwaith gael ei gwblhau yn hydref 2019 fan bellaf.

Tâl Tagfeydd

Gofynnodd y Cynghorydd Fouweather am sicrwydd nad oedd cynlluniau ar waith i gyflwyno tâl tagfeydd yng Nghasnewydd ar gyfer tymor llawn y cyngor hwn, ac i gyflwyno tâl os oedd hyn yn ymrwymiad clir yn y maniffesto yn unig. Amlinellodd cwestiwn atodol y Cynghorydd Fouweather y pryderon ynghylch cyflwyno tâl o'r fath. Ymatebodd yr Arweinydd i'r ddau gwestiwn na fyddai'n cael ei dylanwadu gan yr wrthblaid i bendefynnu un ffordd neu'r llall.

14. Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau i Aelodau'r Cabinet.

15. **Cwestiynau i Gadeiryddion y Pwyllgorau**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau i Gadeiryddion y Pwyllgorau.